Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

| RHYBUDD 0 GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL | | GENERAL GRANTS COMMITTEE |
| DYDD MERCHER,<br>13 GORFFENNAF 2016 at 10.30 y.b. | | WEDNESDAY,<br>13 JULY, 2016 at 10.30 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | **Mrs. Mairwen Hughes**<br>**01248 752516** | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS:**

**Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Chairman of the Trust – T.V. Hughes**
**Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Vice-Chairman of the Trust – T.Ll. Hughes**

**Lewis Davies**
**R Dew**
**Jim Evans**
**Vaughan Hughes**
**Victor Hughes**
**Llinos Medi Huws**
**Richard Owain Jones**
**Jeffrey M.Evans**
**Dylan Rees**
**P S Rogers**

# R H A G L E N

**1** **<u>ETHOL CADEIRYDD</u>**

Ethol Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

**2** **<u>ETHOLIAD IS-GADEIRYDD</u>**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol.

**3** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**4** **<u>COFNODION</u>** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a gafwyd ar 8 Gorffennaf, 2015.

**5** **<u>GRANTIAU BLYNYDDOL 2016/17</u>** (Tudalennau 7 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Trysorydd mewn perthynas â'r uchod.

# Pwyllgor Grantiau Cyffredinol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr. Jeffrey M.Evans (Cadeirydd)<br>Mr. Jim Evans (Is-gadeirydd)<br><br>Mr. R Dew, Mr. Victor Hughes, Mrs. Llinos Medi Huws, Mr. Dylan Rees a Mr. P S Rogers |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd.<br><br>**Swyddogion o Gyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt o hyn ymlaen yn ôl teitlau eu swyddi yn CSYM)**<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO),<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol a Thrawsnewid) (BD),<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (CS),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr. A M Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn<br><br>Mr. Richard Owain Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Fe wnaeth Mr. Dylan Rees ddatgan diddordeb yng nghyswllt cais 09 – Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru gan ei fod yn ‘Gyfaill i Gymdeithas Gwiwerod Coch Ynys Môn’. Ni wnaeth y Cynghorydd Rees gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais.

Fe wnaeth y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg ddatgan diddordeb yng nghyswllt cais 46 – Clwb Plant Bach, Llangefni ac ni wnaeth gymryd rhan yn y drafodaeth ar y cais.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2014.

### 3 GRANTIAU BLYNYDDOL 2015/16

Cyflwynwyd – adroddiad ar ran y Trysorydd yng nghyswllt yr uchod.

Adroddwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried ceisiadau sy’n berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Mae Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn dyrannu arian yn flynyddol i brosiectau yn y categorïau a ganlyn:-

- Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bach)
- Grantiau eraill (grantiau bychain unwaith ac am byth yn bennaf)

Yng nghyfarfod yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2015, penderfynwyd dirprwyo cyllideb o £125,000 i’r Pwyllgor hwn ar gyfer y rhaglen grantiau blynyddol. Penderfynodd

yr Ymddiriedolaeth lawn hefyd y dylid cynyddu cyfyngiad y grant yng nghyswllt Grantiau Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon o £6,000 i £8,000. Mae cyfyngiad ar gyfer grantiau bychain yn aros ar £1,000 ac mae'r terfyn cyllido uchaf i bob grant yn aros ar 80%. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2015, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn gynyddu'r terfyn uchaf a chyfradd y ganran gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a dderbynnir.

Mae'r swyddogion perthnasol o Gyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd cyhyd â phosib ac yn gyson â phenderfyniadau a meini prawf yr Ymddiriedolaeth a sefydlwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Mae argymhellion y swyddogion i'w gweld yn Atodiadau A a B sydd ynghlwm yn yr adroddiad. Caiff y ceisiadau hyn eu hystyried yn unol â'r meini prawf ar gyfer dyrannu grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, ac roedd copi o hwn ynghlwm fel Atodiad C i'r adroddiad.

**Mae'r ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellwyd ar gyfer Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon – Grantiau Cyfalaf 2015/16 fel a ganlyn :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **01** | Clwb Pêl-droed Llangoed | Adnewyddu ystafelloedd newid | **£5,469** *(Cymeradwyo'r grant uchod, mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn cyfrifon wedi eu harchwilio ac ar foddhad Swyddogion y Cyngor ynghylch sefyllfa ariannol y Clwb o fewn cyfnod o 2 fis)* |
| **02** | Canolfan Gymuned David Hughes | Uwchraddio cegin a'r ystafell gyfagos | 70% o'r gost cymwys, hyd at **£2,715** *(Cymeradwyo'r grant uchod, mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn amcanbrisiau pellach o fewn cyfnod o 2 fis)* |
| **04** | Cyngor Plwyf Llangristiolus a Cherrigceinwen | Creu Cae Chwarae | **£8,000** |
| **05** | Cyngor Cymuned Llanfairpwllgwyngyll | Gwaith paratoi angenrheidiol ar gyfer neuadd newydd | **DIM** *(Mae'r arian a geisir ar gyfer gwaith paratoi ac mae risg na fyddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen fel y disgwylir).* |
| **06** | Canolfan Goffa Gymunedol Porthaethwy | Adnewyddu'r bwyler gwres | **£2,968** |
| **07** | Ffederasiwn Pysgotwyr Môr Cymru | Cefnogaeth i berson ifanc talentog lleol gyda chostau cystadlu ym Mhencampwriaethau'r DU | **DIM** *(Cynhaliwyd y gystadleuaeth cyn y cyfarfod hwn, felly nid yw'n gymwys)* |
| **08** | Clwb Pêl-droed Pentraeth | Darparu draen cerrig i atal dŵr rhag mynd ar y cae | **DIM** |
| **10** | CRhA Ysgol Esceifiog | Prynu popty i'w roi ar ben bwrdd ac offer i roi profiad i ddisgyblion CA1 a CA2 ddysgu am fwyd, bwyta'n iach a pharatoi bwyd. | **DIM** *(Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi ysgolion, felly nid yw'r cais yn gymwys)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **12** | Pwyllgor Cae Chwarae Bodffordd | Atgyweirio arwyneb llawr diogelwch, prynu seddi a bin sbwriel | 70% o'r gost gymwys hyd at **£1,428**<br>*(Dyfarnwyd y grant er mai dim ond un amcan bris a dderbyniwyd oherwydd mai'r cwmni sy'n medru gwneud y gwaith atgyweirio yw'r unig gwmni o fewn pellter rhesymol).* |
| **13** | Partneriaeth Moelfre | Codi plac coffa i gofio am 29 o arwyr lleol fu ynghlwm ag achub bywydau adeg trychineb y Royal Charter | **£585** |
| **14** | Clwb Pêl-droed Iau Tref Amlwch | Prynu cynwysyddion storio | **£3,150** |
| **19** | Cymdeithas Lenyddol Bro Goronwy | Arian ar gyfer darlithydd, llogi'r ysgol, treuliau'r ysgrifennydd, argraffu a llogi'r capel | **DIM**<br>*(Wedi canfod cyllid amgen ar gyfer y cais hwn)* |
| **20** | Cymdeithas Hanes Bro Goronwy | Cymorth ariannol tuag at gost siaradwyr, argraffu, llogi festri'r capel i gynnal cyfarfodydd, costau ysgrifenyddol. | **DIM**<br>*Wedi canfod cyllid amgen ar gyfer y cais hwn)* |
| **21** | Clwb Criced Bodedern | Prynu peiriannau torri gwair | **£5,670** |
| **22** | Clwb Rhwyfo Biwmares | Prynu ail gwch hir Celtaidd | **£7,835** |
| **26** | Amlwch Showstoppers | Prynu offer i'r grŵp allu recordio sioeau er mwyn cynhyrchu DVDs i'w gwerthu ac i ddarparu cofnod gweledol o sioeau ar gyfer hyfforddiant a gwerthuso. | **£2,000** |
| **27** | Clwb Pêl-droed Bro Goronwy | Cwblhau gwaith adnewyddu Portacabin, llawr newydd, 2 ddrws ac 1 ffenest. | **£1,626** |
| **28** | Cyngor Cymuned Y Fali | Troi ystafell yn y pafiliwn ym Mharc Mwd i ystafell gyfarfod/ cymunedol | **£1,813** |
| **29** | Heneiddio'n Dda Ynys Môn | Ariannu bws mini ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn y canolfannau Heneiddio'n Dda yn Amlwch ac yn Llangefni. | **£2,500** |
| **30** | Clwb Arlunio Moelfre | Prynu byrddau arddangos symudol | **£1,408** |
| **31** | Canolfan Geidiau Ynys Môn | Gwella cyfleusterau yn yr ystafell gweithgareddau, insiwleiddio'r adeilad a darparu goleuadau a gwresogi mwy effeithlon | **£1,408** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **33** | Cynllun Cyfeirio Ynys Môn | Darparu cefnogaeth un i un i blant oedran cyn ysgol gydag anghenion dysgu ychwanegol | **DIM**<br><br>*(Byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i ychwanegu at gyllid craidd a ddarperir gan y Cyngor Sir, felly nid yw'n gymwys).* |
| **34** | Canolfan Gymunedol/ Neuadd yr Eglwys Llanfairpwll | Adnewyddu'r to | **£8,000** |
| **35** | Ffrindiau Parc Rhosybol | Datblygu ardal chwarae | **£8,000**<br>*(Cymeradwyo'r grant uchod, mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn cyfrifon wedi eu harchwilio ac ar foddhad swyddogion y Cyngor ynghylch sefyllfa ariannol y clwb o fewn cyfnod o 2 fis)* |
| **37** | Clwb Criced Porthaethwy | Prynu peiriant torri gwair a gwahanol ddarnau ategol | **£5,161** |
| **38** | Cyngor Tref Biwmares | Gwella cae chwarae Biwmares | **£8,000** |
| **39** | Rhieni a Ffrindiau Clwb Cybi | Prynu offer a darparu gweithgareddau ar gyfer aelodau'r clwb | **DIM**<br><br>*(Diffyg gwybodaeth gyda'r cais)* |
| **41** | Cyngor Cymuned Moelfre | Prynu offer chwarae | **DIM**<br>*(Ddim yn gymwys gan ei fod wedi derbyn grant yn 2014/15)* |
| **42** | Tudur Cyf. (Canolfan Ebeneser) | Darparu mynediad i'r anabl i'r brif fynedfa, a throsi ardal y llawr mezzanine i gyfleuster ychwanegol | **£7,941**<br><br>*(Cymeradwyo'r grant uchod, mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn prawf o berchnogaeth yr adeilad o fewn 2 fis).* |
| **43** | Côr Meibion Y Foel | Cynorthwyo'r Côr i gynhyrchu a marchnata ail CD | **DIM**<br><br>*(Diffyg gwybodaeth gyda'r cais).* |
| **44** | Canolfan Hamdden Biwmares a'r Cylch | Gosod drysau ffrynt alwminiwm gyda gwydr dwbl a weithredir gyda phad gwthio wrth fynedfa'r adeilad. | **DIM**<br><br>*(Ddim yn gymwys, wedi derbyn grant yn 2013/14)* |
| **45** | Grŵp Chwarae Cyn-Ysgol Amlwch | Cyfrannu at gostau rhent y flwyddyn i ddod er mwyn ail-fuddsoddi yn y Cynllun Sicrwydd Ansawdd ac i wella'r man awyr agored. | **DIM**<br><br>*(Nid yw grwpiau cyn-ysgol wedi derbyn cefnogaeth gan yr Ymddiriedolaeth yn* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *flaenorol)* |
| **46** | Clwb Plant Bach Llangefni | Byrddau, cadeiriau ac adnoddau dysgu i blant bach | **DIM** *(Diffyg gwybodaeth gyda'r cais)* |
| **47** | Cylch Teulu | Darparu offer ar gyfer plant anabl yn y parc lleol oherwydd nad oes offer addas ar gael ar hyn o bryd. | **DIM** *(Nid yw cost y cynllun wedi cael ei amlinellu. Nid yw'r cynllun wedi dangos faint maent yn gofyn amdano. Hefyd nid yw lleoliad y parc wedi ei nodi. Heb ddarparu digon o wybodaeth i gefnogi).* |
| **49** | Cambrian Deaf Foundation | Gwella datblygiad addysgol, cymdeithasol a chorfforol plant byddar | **DIM** *(Caiff y gwasanaeth ei gynnig trwy Gymru gyfan, oherwydd lefel isel y cyfeiriadau mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth tebyg yn Ynys Môn wedi cael eu tynnu'n ôl am ei bod yn anodd profi gwerth am arian).* |
| **50** | Ffrindiau Llangoed | Prynu offer chwarae | **£5,497** *(Cymeradwyo'r grant uchod, mewn egwyddor, yn amodol ar dderbyn cyfrifon wedi eu harchwilio ac ar foddhad swyddogion y Cyngor ynghylch sefyllfa ariannol y clwb o fewn cyfnod o 2 fis).* |

**Mae'r ceisiadau a dderbyniwyd a'r symiau a argymhellir ar gyfer Grantiau Bach yn 2015/16 fel a ganlyn:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **03** | Tyddyn Môn | Creu gŵyl gerdd ar gyfer Tyddyn Môn. Annog a hwyluso oedolion gydag Anableddau Dysgu i ymgysylltu â chymryd rhan yn yr ŵyl, ennill sgiliau newydd a datblygu eu bywyd cymdeithasol a'u profiadau. | **£1,000** |
| **09** | Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru | Cyllido dau gontractwr am 6 mis i:-<br>(a) ddod o hyd i, a chael gwared ar wiwerod llwyd sy'n croesi i Ynys Môn.<br>(b) monitro iechyd gwiwerod coch<br>(c) gweithio gyda busnesau a chymunedau i gynnal twristiaeth werdd mewn perthynas â gwiwerod coch. | **£1,000** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **25** | Gŵyl Fwyd Biwmares | Cynorthwyo gyda chostau sefydlu Gŵyl Fwyd Biwmares 2015 | **£1,000** |
| **32** | Cymdeithas MS | Cyllido dosbarthiadau ymarfer a gynhelir yng Nghanolfan Hamdden Biwmares i bobl gydag MS | **£1,000** |
| **40** | Gŵyl Fwyd Môr Menai | Mynediad am ddim i'r ŵyl fwyd môr | **£1,000** |

Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai sefydliadau sy'n cyflwyno cais am grant i'r Ymddiriedolaeth Elusennol gael cynnig arweiniad a chymorth pellach pan fyddant yn llenwi'r ceisiadau am grant.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r symiau, fel y rhestrir uchod (£x) [ger y symiau a argymhellir], sef y gyfradd grant o 70%.**

**Mr. Jeff M. Evans**
**Cadeirydd**

| YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GRANTIAU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **13 GORFFENNAF 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **GRANTIAU BLYNYDDOL 2016/17** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **AMLINELLU'R CEISIADAU GRANT AM 2016/17** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **TRYSORYDD YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** |
| **GWEITHREDU:** | **CYTUNO AR DDYRANNU GRANTIAU AM 2016/17** |

**1.** Ym mis Mawrth eleni, rhoddwyd hysbysebion yn y wasg leol yn gwahodd ceisiadau grant gan fudiadau gwirfoddol a mudiadau eraill. Defnyddwyd ffurflen gais safonol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn yn ogystal â'r Gronfa Degwm. Y dyddiad olaf derbyn ceisiadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 oedd 6 Mai 2016.

**2.** Pan dderbynnir y ceisiadau gan Swyddogaeth Adnoddau y Cyngor Sir, maent yn cael eu prosesu ac wedyn eu cyfeirio at y gwasanaeth perthnasol ac i'r gronfa berthnasol.

**3.** Pwrpas yr adroddiad hwn yw ystyried y ceisiadau hynny sy'n berthnasol i Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Bydd y ceisiadau sy'n berthnasol i Gronfa'r Degwm yn cael eu hystyried gan Gyngor Sir Ynys Môn, nid yr Ymddiriedolaeth hon.

**4.** Gwneir dyraniadau yn flynyddol o'r Pwyllgor yma i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bach)
Grantiau Eraill (grantiau bychain unwaith ac am byth yn bennaf)

**5.** Yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2016, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn ddirprwyo cyllideb o £125,000 i'r Pwyllgor hwn ar gyfer y rhaglen grantiau blynyddol. Yn ogystal, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn byddai dyrannu grantiau i sefydliadau unigol yn amodol ar gymeradwyaeth yn Ymddiriedolaeth Elusennol lawn. Uchafswm y grant mewn perthynas a Grant Cyfleusterau Cymunedol a Chwareon yw £8,000 a hyd at 70% o'r gost dilys. Fodd bynnag, yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill 2011, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth lawn i roi hyblygrwydd i'r Pwyllgor hwn godi'r uchafswm a'r gyfradd o gefnogaeth yn wyneb y ceisiadau a ddeuai i law.

**6.** Mae swyddogion perthnasol o fewn Cyngor Sir Ynys Môn wedi ystyried a blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniwyd cyn belled ag y bo modd ac yn gyson gyda phenderfyniadau'r Ymddiriedolaeth a meini prawf a sefydlwyd yn y gorffennol. Mae argymhellion y swyddogion i'w gweld yn Atodiad A o'r adroddiad hwn. Mae system gyfeirio ar y cyd wedi cael ei sefydlu ar gyfer y ddau fath o grantiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ac ar gyfer ceisiadau am arian o'r Gronfa Degwm; bydd unrhyw fylchau yn y cyfeirnodau i'w priodoli i'r ffaith bod y grantiau hynny wedi cael eu cyflwyno i'r Gronfa Degwm yn hytrach na'r Ymddiriedolaeth hon.

**7.** Mae'r ceisiadau yn cael eu hystyried yn unol â'r 'Meini Prawf ar gyfer Dosbarthu Grantiau o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn', ac mae copi yn Atodiad B.

**8.** Mae Atodiad A yn delio â grantiau dan y pennawd 'Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon' arferol. Yr argymhelliad yw cefnogi grantiau i geisiadau sy'n gymwys ar raddfa 70% o'r gost dilys, hyd at uchafswm o £8,000. Byddai hyn yn costio cyfanswm o £47,910 os yw argymhellion y swyddogion yn cael eu derbyn. Hefyd, mae rhai ceisiadau i'r Pwyllgor yma benderfynu, ac os ceith rhain i gyd eu hargymell, byddai hyn yn costio £38,620, a fyddai'n golygu fod cyfanswm a ddyranwyd ar gyfer 2016/17 yn £86,530.

| | ARFAETHEDIG 2016/17 | | GWIRIONEDDOL 2015/16 | |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **Nifer** | **£** | **Nifer** |
| Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (Atodiad A) | 47,910 | 12 | 102,766 | 26 |
| Y Pwyllgor i benderfynu | 38,620 | 10 | | |
| | **86,530** | **22** | **102,766** | **26** |

Bydd Swyddogion ar gael yn y cyfarfod i gynghori ar yr argymhellion a cynnigir yn Atodiad A.

**10. Y PENDERFYNIADAU SYDD EI ANGEN**

**(a)** I ystyried ac i gymeradwyo neu wrthod y ceisiadau a ddangosir yn A.

**R MARC JONES**
**TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN** **5 GORFFENNAF 2016**

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**
***ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST***

**Cyfleusterau Cymunedol – Grantiau Cyfalaf 2016/2017**
***Community Facilities – Capital Grants 2016/2017***

**ATODIAD A**
***APPENDIX A***

| **Cyf.**<br><br>***Ref.*** | **Enw'r Mudiad**<br><br>***Name of Organisation*** | **Pwrpas y Cais**<br><br>***Purpose of Application*** | **Cost**<br><br>***Cost*** | **Cais am**<br><br>***Request*** | **Sylwadau**<br><br>***Remarks*** | **Swm a Awgrymir**<br>***Sum Suggested***<br>**(£)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **01** | **3D KIDS** | I hwyluso gweithgareddau cymdeithasol i blant ac oedolion (0-25) a'u teuluoedd<br>*To facilitate social activities for children & adults (0-25) and their families* | Heb ei Nodi<br><br>Not Stated | £3,000 | | **£2,100** |
| **02** | **CLWB PÊL-DROED HOTSPUR**<br>***FOOTBALL CLUB*** | Adnewyddu'r man gwylwyr<br>*Refurbish spectator area* | £5,904 | £5,704 | Nid yw'r mudiad wedi cyflwyno gwybodaeth am berchnogaeth y tir.<br>*The association has not submitted information regarding ownership of the land.* | **Y Pwyllgor i benderfynu/**<br>***Committee to decide*** |
| **03** | ***YNYS MÔN A GWYNEDD RELAY FOR LIFE GWYNEDD & ANGLESEY*** | *Cost cynnal y weithgaredd sy'n cymryd lle ar 9 a 10 Gorffennaf. Mae arian a godir yn cyfrannu tuag at strategaethau ymdopi â cancr, cefnogaeth seicolegol ac ymarferol.*<br>*Costs for hosting the relay event which takes place on the 9th and 10th July.*<br>*The funds raised contribute to coping with cancer strategies, psychologic and practical support.* | £4,500 | £1,000 | *Mae Relay for Life yn rhan o'r Elusen Ymchwil Cancr, nid yw'r ras ei hun yn elusen.*<br><br>*Relay for Life is a part of the Cancer Research Charity the relay itself is not a registered charity.* | **£1,000** |
| **04** | **CLWB CABAN RHOSCOLYN** | Offer chwarae tu allan, offer garddio, ffram ddringo, sleidiau, beiciau, scwteri, offer chwarae dwr a tywod a deniau./<br>*Outside play equipment, gardening equipments, climbing frame, slides, trickes, scooters, water and sand play and dens* | £3,000 | £3,000 | Heb gyflwyno prisiau./<br>*Have not submitted estimates* | **DIM/**<br>***NIL*** |
| **05** | **GRŴP CYMUNEDOL A CHARNIFAL PORTHAETHWY/ MENAI BRIDGE COMMUNITY AND CARNIVAL GROUP** | I brynu pabell a system "pa"./<br>*To purchase marquee and pa system* | £2,500 | £2,500 | | **£1,750** |
| **06** | **PARTI MEIBION BARA BRITH** | Cymorth i dalu am greu crynoddisg./<br>*Funding to create CD* | £1,000 | £500 | Heb gyflwyno prisiau na pholisïau./<br>*Have not submitted estimates or policies.* | **DIM**<br>**NIL** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **07** | **CYNGOR CYMUNED LLANFAIRMATHAFARNEITHAF COMMUNITY COUNCIL** | Uwchraddio System Teledu Cylch Cyfyng/ *Upgrade CCTV system* | £52,449 | £15,000 | Nid yw cynlluniau sy'n fwy na £30,000 yn gymwys am ystyriaeth./ *Schemes in excess of £30,000 are not eligible for consideration.* | **DIM NIL** |
| **08** | **GRŴP CYNEFIN** | Darparu Wardeiniaid Ynni Cymunedol./ *Provide Community Energy Wardens* | £68,992 | £3,000 | Ddim yn gymwys/ *Not eligible* | **DIM NIL** |
| **09** | **CLWB PELDROED UNEDIG BAE TREARDDUR TREARDDUR BAY UNITED FOOTBALL CLUB** | Prynu cyfleuster storio./ Purchase storage container | £2,640 | £2,200 | | **£1,848** |
| **14** | **BRYNGWRAN CYMUNEDOL CYF/LTD** | Adnewyddu toiled a chegin a dodrefnu ystafell aml-bwrpas./ *Refurbish toilet and kitchen and to furnish utility room.* | £5,000 | £3,000 | | **£3,000** |
| **15** | **ADLAIS** | Cymorth i gynnal cyngerdd dathlu pen-blwydd y côr yn 25 oed./ *Support to fund a 25 year anniversary concert* | £1,500 | £1,500 | Ddim yn gymwys/ *Not eligible* | **DIM NIL** |
| **16** | **CLWB PÊL DROED LLANGEFNI FOOTBALL CLUB** | Offer ar gyfer cynnal a chadw cyfleusterau y clwb pêl droed./ *Equipment towards maintenance facilities of the Football club.* | £6,102 | £6,000 | | **£4,271** |
| **17** | **PANTRI 6** | Cyllid ar gyfer arwyddion, paentio, gostwng y nenfwd, inswleiddio, inswleiddio waliau, gwres canolog, gosod toiled i'r anabl, tudalen we a chyflog am un swydd./ *Funding for signage, painting, lower ceiling, insulation, insulate walls, central heating, install disabled toilet, web page and salary for one.* | £115,000 | £8,000 | Canolfan galw i mewn ar gyfer y di-waith a'r enillwyr cyflog isel gyda mynediad i gyfrifiaduron i gynorthwyo gyda cheisiadau am fudd-daliadau a chwilio am swyddi. Mae'r cwmni wedi sicrhau grantiau o **£105,000** tuag at y cynllun./ *A drop in Centre for unemployed and low paid earners with access to computers to assist with benefit claims and job search. The company have secured grants totalling* ***£105,000*** *towards the project.* | **£8,000** |
| **18** | **NEUADD GOFFA PENTRAETH MEMORIAL HALL** | Gostwng y nenfwd a gosod goleuadau./ *Lower ceiling and install new lighting.* | £4,453 | £3,500 | | **£3,117** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **19** | **NEUADD GOFFA BODEDERN MEMORIAL HALL** | Atgyweirio'r Neuadd drwy osod ffenestri newydd/berwr dŵr/stôf ac ymestyn y maes parcio./ *Refurbishments to the Hall to include replacement windows/boiler/stove and extend the parking groud* | £8,260 | £8,000 | Mae cyflwr y neuadd wedi dirywio ac mae angen ehangu delwedd a chyflwr yr adeilad. Bydd y Neuadd a'r pentref yn ganolbwynt sylw pobl o bob cwr o Gymru flwyddyn nesaf pan gynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol ym Modedern./ *The condition of the hall has deteriorated and improvements need to be made to the image and condition of the building. The village and the hall will be the focus for people from across the whole of Wales next year when the National Eisteddfod will be held at Bodedern.* | **£5,782** |
| **20** | **CYNGOR CYMUNED LLANNERCHYMEDD COMMUNITY COUNCIL** | Diogelu safle Rhandiroedd i'r Gymuned yn unol a gofynion y Les ac amodau Iechyd a Diogelwch./ *Make safe the Community Allotments in accordance with lease requirements and Health and Safety conditions.* | £3,000 | £2,250 | Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn y gorffennol yn ystyried ceisiadau am ffensys heblaw am resymau iechyd a diogelwch. Mae'r Cyngor yn nodi mai pwrpas y cais yw diogelu'r tir yn unol â gofynion rheoliadau Iechyd a Diogelwch. Wedi llwyddo i dderbyn 1 pris gan Gwmni Arbenigol ac yn ceisio am ail i'w gyflwyno mor fuan ag y derbynnir ef./ *The Charitable Trust has not in the past given funding for fencing other than for reasons of Health and Safety. The Council has noted on the application that fencing is required for Health and Safety compliance. Have succeeded to gain one estimate from a specialist company and are seeking to obtain a second which will be submitted as soon as received.* | **Y Pwyllgor i benderfynu/ The Committee to decide.** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **21** | **CLWB PÊL-DROED CEMAES FOOTBALL CLUB** | Llifoleuadau./ *Floodlghts* | £48,000 | £8,000 | Wedi gwneud cais am grant o £24,000 gan Clwb Padrig ond heb ei ddyfarnu eto./ *Have made an application for £24,000 to "Clwb Padrig" but has not yet been awarded.* | **£8,000 Gydag amod o dderbyn y grant gan Glwb Padrig/*With the condition of securing the grant award from Clwb Padrig*** |
| **22** | **CLWB GYMNASTEG YNYS MÔN/ ANGLESEY GYMNASTICS CLUB** | Prynu offer dogelwch./ *Purchase safety equipment* | £1,350 | £1,000 | Cais i brynu matiau diogelwch a blociau. Wedi cyflwyno un amcangyfrif ar gyfer yr eitemau gan 2 gyflenwr ac yn nodi ar y cais mai'r cwmnïau hyn yw'r unig gyflenwyr yn y DU. Mae'r Clwb wedi derbyn grant VVP o £40,505 gan Gyngor Sir Ynys Môn. *Application to purchase safety mats and blocks. Have supplied one estimate for each item from two companies and have noted on the application that these companies are the only suppliers in the UK. The Club has been awarded a VVP grant of £40,505 from the Isle of Anglesey County Council.* | **Pwyllgor i benderfynu/ *Committee to decide*** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **23** | **PARTNERIAETH ADFYWIO MORAWELON A FFORDD LLUNDAIN (MORLO) MORAWELON AND LONDON ROAD REGENERATION PARTNERSHIP (MORLO)** | I ddatblygu gardd/rhandir cymunedol ar dir ynghlwm i Ganolfan Gymunedol Gwelfor./ *To develop a Community Garden/ allotment on land attached to Gwelfor Community Centre.* | £5,631 | £3,753 | Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn y gorffennol yn ystyried ceisiadau am ffensys heblaw am resymau iechyd a diogelwch. Mae'r cais yn nodi mai pwrpas y cynllun yw diogelu gardd/rhandir y gymuned drwy godi ffens o amgylch y safle. *The Charitable Trust has not in the past given funding for fencing other than for reasons of Health and Safety. The application states the details of the proposed scheme is to make secure the community garden/ allotment by erecting fencing around the area.* | **Pwyllgor i benderfynu/ *Committee to decide*** |
| **24** | **PWYLLGOR MONTAGE COMMITTEE** | Ar gyfer trefnu Gŵyl un-dydd Ysgrifennu Môn./ *To organise one day Ynys Môn Writing Festival* | £1,500 | £250 | Byddai ceisiadau o'r math yma yn y gorffennol wedi cael eu cyfeirio at Gronfa Grantiau Bychan Adran Diwylliant ond mae'r gyllideb bellach wedi ei diddymu./ *Grants of this nature would have in the past been directed to the Small Grants held by the Culture Department but the budget has now been abolished.* | **Pwyllgor i benderfynu/ *Committee to decide*** |
| **26** | **CYMDEITHAS CAEAU CHWARAE LLANFAES PLAY AREAS ASSOCIATION** | Offer i greu safle chwarae./ Equipment to create play area | £23,000 | £7,120 | Mae gan y Gymdeithas lai na 21 mlynedd o les ar y tir **(13 blwyddyn)**. Mae'r Gymdeithas wedi derbyn gwerth **£15,000** o grantiau. Yn gymdeithas newydd ei ffurfio felly nid oes cyfrifon archwiliedig./ *The Association has less than 21 years on the lease of the land **(13 years).** The Association have secured grants totalling **£15,000.** A newly formed Association, therefore, no audited accounts.* | **Pwyllgor i benderfynu/ *Committee to decide*** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **27** | **CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL** | Ffens ychwanegol ar gae chwarae Bryngwran./ *Additional fencing for the Bryngwran playing field.* | £3,607 | £3,107 | Wedi derbyn grant gan yr Ymddiriedolaeth yn 2014/2015, felly, ddim yn gymwys./ *Received a grant from the Charitable Trust in 2014/2015, therefore, not eligible*. | **DIM NIL** |
| **28** | **CRAFTY T'ARTS** | I brynu offer storio addas/ *To purchase storage products* | £1,489 | £1,489 | Wedi cyflwyno un amcangyfrif gan mai'r cwmni hwn yw'r unig gynhyrchwr sydd â chynnyrch priodol i'w gofynion. Heb gyflwyno cyfrifon archwiliedig gan eu bod yn y broses o apwyntio archwiliwr./ *Have submitted one estimate as the company is the only manufacturer of storage most appropriate to their requirements. Have not included audited account as they are in the process of appointing an auditor.* | **£1,042** |
| **29** | **CYNGOR CYMUNED MOELFRE COMMUNITY COUNCIL** | Prynu offer newydd i'r maes chwarae ac adnewyddu safle tenis i gydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch./ *Purchase equipment for the play area and renew the tennis area in order to comply with Health and Safety requirements.* | £11,089 | £8,000 | Ddim yn gymwys gan eu bod wedi derbyn grant yn 2014/2015/ *Not eligible as they received a grant in 2014/2015.* | **DIM NIL** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **30** | **CRONFA FFENESTRI LLIW EGLWYS SANTES GWENLLWYFO/** ***SAINT GWENLLWYFO CHURCH STAINED GLASS FUND*** | I gyllido cyhoeddiad o lyfr dwyieithog “Trysorau Cudd hidden treasures of Môn” hanes ffenestri lliw Fflemeg, 16[eg] ganrif Eglwys Santes Gwenllwyfo./ *To fund the publication of a bilingual book “Trysorau Cudd hidden treasures of Môn on the history of the 16[th] Century Flemish stained glass at the Saint Gwenllwyfo Church.* | £6,000 | £3,000 | Mae ffenestri’r eglwys yn denu llawer o ymwelwyr i Ynys Môn a’r bwriad yw bydd y llyfr yn cofnodi, dim yn unig hanes y ffenestri, ond hefyd gyd-destun hanesyddol Ynys Môn. Mae’r gronfa wedi casglu **£3,475** tuag at y gost o £6,000. Byddai ceisiadau o’r math yma yn y gorffennol wedi ei gyfeirio at Gronfa Grantiau Bychan Adran Diwylliant ond mae’r gyllideb bellach wedi ei diddymu./ *The church windows attract many visitors to Ynys Môn and the intention is that the book will record, not only the history of the window,s but also the historical context with Ynys Môn. The fund has raised* ***£3,475*** *towards the cost of £6,000. Grants of this nature would have in the past been directed to the Small Grants held by the Culture Department but the budget has now been deleted.* | **Pwyllgor i benderfynu/** ***Committee to decide*** |
| **31** | **CYLCH LLÊN LLANFAIRPWLL LITERACY CIRCLE** | Dathlu pen-blwydd y Gymdeithas yn 40[eg] mlwydd oed drwy gynnal gweithgareddau./ *Celebrate the 40[th] anniversary of the Association by holding various activities* | £1,885 | £1,585 | Byddai ceisiadau o’r math yma yn y gorffennol wedi cael eu cyfeirio at Gronfa Grantiau Bychan Adran Diwylliant ond mae’r gyllideb bellach wedi ei diddymu./ *Grants of this nature would have in the past been directed to the Small Grants held by the Culture Department but the budget has now been deleted.* | **Pwyllgor i benderfynu/** ***Committee to decide*** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **32** | **CYMDEITHAS HEN OFFER YNYS MÔN**<br>**ANGLESEY VINTAGE EQUIPMENT SOCIETY** | I brynu "portaloo" hefyd dodrefn a gosodiadau i'r ystafell gyfarfod/hyfforddi./<br>*To purchase "portaloo" also furniture and fittings for meeting/training room.* | £23,025 | £23,025 | Wedi cyflwyno cyfrifon heb eu harchwilio. Heb gyflwyno polisïau./<br>*Have submitted un-audited accounts. Have not submitted policies*. | **Pwyllgor i benderfynu/**<br>***Committee to decide*** |
| **33** | **CYMDEITHAS Y BYDDAR GOGLEDD CYMRU**<br><br>**NORTH WALES DEAF ASSOCIATION** | Ailwampio Uned Symudol CyBGC i hwyluso offer gynorthwyol a sesiynau 1:1 yn yr uned./<br>To refit the NWDA Mobile Unit in order to facilitate assistive equipment and 1:1 sessions in the unit. | £74,908 | £12,000 | Nid yw'r cais yn cynnwys 2 ddyfynbris am y gwaith, fodd bynnag, fe ystyrir ailwampio'r uned symudol yn faes arbenigol o waith ac, er gwaethaf nifer o geisiadau i gael gafael ar gwmni arall, yn lleol ac ymhellach, nid yw'r sefydliad wedi cael hyd i neb sydd hefo'r arbenigedd na sy'n fodlon i ddarparu ail ddyfynbris./<br>*Application does not include 2 estimates for the work, however, the refit of the mobile unit is considered a specialist area of work, and despite numerous attempts to find another company, local and further afield, the organisation has been unable to find anyone who has the expertise or is willing to provide a second quote.* | **£8,000** |
| **34** | **CÔR IEUENCTID MÔN YOUTH CHOIR** | Ar gyfer cyllido Swydd cydlynydd Gweinyddol rhan-amser/<br>*For the purpose of funding a part-time Administrator Co-ordinator.* | £10,000 | £8,000 | Ddim yn gymwys oherwydd nad yw'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi costau cyflogi/<br>*Not eligible as the Trust does not support salary costs* | **DIM**<br>**NIL** |
| **36** | **CLWB HWYLIO BRENHINOL MÔN**<br>**ANGLESEY ROYAL SAILING CLUB** | Tuag at brynu cwch diogelwch/<br>T*owards the purchase of a safety boat* | £14,400 | £8,000 | Clwb Chwaraeon gydag aelodau yn talu ffî aelodaeth /<br>*Sports club with members paying membership fees.* | **Pwyllgor i benderfynu/**<br>***Committee to decide*** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **38** | **CANOLFAN UCHELDRE CENTRE** | I gynnal rhaglen ganolfan gelfyddydau lawn o ddigwyddiadau, arddangosfeydd, ffilmiau, darllediadau lloeren, gweithdai, clybiau a chymdeithasau./ *To provide a full arts centre programme of events, exhibitions, films, satellie broadcasts, workshops, clubs and societies.* | £204,012 | £8,000 | Nid yw cynlluniau sy'n fwy na £30,000 yn gymwys am ystyriaeth./ *Schemes in excess of £30,000 are not eligible for consideration.* | **DIM NIL** |
| **39** | **FFERMWYR IFANC YNYS MÔN YOUNG FARMERS** | I ariannu cynllun i wella gwaelodlin sgiliau aelodau'r mudiad er gwella eu cyfleoedd o ran cyflogaeth./ *To fund a project to improve baseline skills of members in order to better their opportunities in terms of employment*. | £2,940 | £2,940 | . Ddim yn gymwys gan fod y Mudiad yn derbyn, ar hyn o bryd, grant o £30,000 y flwyddyn gan yr Ymddiriedolaeth./ *Not eligible as the Association is currently receiving a grant of £30,000 annually from the Trust.* | **DIM NIL** |

**YR AMODAU AR GYFER DOSBARTHU GRANTIAU O YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

**gan gynnwys amodau penodol ar gyfer grantiau tuag at waith cyfalaf a chyfleusterau cymuned**

**1. Y RHEINI FEDR HAWLIO GRANT AC AMODAU'R CYMORTH**

Rhoddir cymorth ariannol i fudiadau adloniadol, elusennol, diwylliannol a chrefyddol ar Ynys Môn.

**a)** Dim ond dan un category neu ddyraniad y rhoddir cymorth ariannol.

**b)** Ni fydd grantiau'n cael eu rhoddi tuag at waith ar adeiladau eglwys neu gapeli sy'n cael eu defnyddio i bwrpas addoli neu i bwrpas unrhyw enwad.

**c)** Ni ddylid rhoi cymorth grant i brynu offer a dillad i unigolion. Y mudiad ei hun ddylai dalu am yr offer hwn.

**ch)** Ni chaiff cais ei ystyried oni bai bod y mudiad wedi cyflwyno'r cyfrifon perthnasol ac unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdano o bryd i'w gilydd.

**d)** Rhaid amgáu o leiaf dau bris gwahanol gydag unrhyw gais sy'n ymwneud â gwaith adeiladu neu brynu offer.

**dd)** Ni ystyrir ceisiadau fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad diwethaf a fydd yn derbyn cais.

**e)** Bydd grantiau'n cael eu dyrannu ar sail statws TAW yr ymgeisydd, h.y. os gall ymgeiswyr adennill TAW, yna ni fydd modd cael grant tuag ato. Os yw'r ymgeisydd yn cael grant ar y sail nad yw'n gofrestredig i dalu TAW ond bod pethau'n newid a hwythau'n cael eu cofrestru i dalu TAW ac yn gallu adennill y TAW ar y grant, bydd angen rhoi gwybod i Drysorydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol a bydd y TAW yn cael ei ad-dalu i'r Ymddiriedolaeth.

**2. GRANTIAU CYFALAF**

**a)** Ni ddylid neilltuo dim dan bennawd yr hyn sydd ar gael i wneud gwaith cyfalaf oni bai bod y swm a neilltuir ynghyd ag unrhyw arian arall fo ar gael, yn ddigon i gwblhau'r cynllun o fewn cyfnod amser rhesymol na fydd yn hwy na'r cyfnod a nodir yn (ch) isod.

**b)** Ni ystyrir unrhyw gais am gymorth o unrhyw gronfa os yw'r gwaith y gwneir y cais amdano eisoes wedi cychwyn.

**c)** Ni chaiff cais am ganiatâd i ddechrau gwaith cyn cyflwyno cais am ddyraniad gael ei ystyried oni bai fod swyddog priodol o'r Cyngor wedi tystiolaethu fod argyfwng pendant yn bodoli, a, phan fod caniatâd yn cael ei roi, ni chaiff hyn ei ddehongli fel bod yn rhwymedig ar yr Ymddiriedolaeth i wneud dyraniad pan fydd y ceisiadau am ddyraniadau yn cael eu hystyried.

**ch)** Rhaid cwblhau cynllun cyfalaf o fewn 4 blynedd i ddyddiad dyfarnu'r grant. Bydd unrhyw swm heb ei ddefnyddio ar ôl pedair blynedd ariannol yn cael ei drosglwyddo'n ôl i Gronfa'r Ymddiriedolaeth.

**d)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos fod y cynllun yn cwrdd â gofynion technegol y Cyngor Sir.

**dd)** Pan fod angen caniatâd cynllunio, rhaid i'r ymgeiswyr wneud yn siŵr bod y caniatâd hwnnw wedi ei roddi.

**e)** Rhaid i'r gwaith fod yn 'agored' fel bod modd i gynrychiolwyr y Cyngor Sir ei archwilio pryd bynnag y dymunent.

**f)** Rhaid sicrhau fod y llyfrau a'r cyfrifon ynghylch y gwaith ar gael i gynrychiolwyr y Cyngor Sir gael golwg arnynt, pe dymunent wneud hynny.

**2.1 GRANTIAU CYFALAF TUAG AT GYFLEUSTERAU CYMUNED**

**a)** Mae'r grantiau yma'n berthnasol i Ganolfannau Cymuned a Neuaddau Pentref, cyfleusterau chwaraeon, celfyddydau, treftadaeth a chymdeithasol sydd ar gael am ddim i'r gymuned, neu fod taliadau blynyddol neu achlysurol yn ymarferol.

**b)** Bod prawf gwirioneddol o anghenion ariannol a chymdeithasol am y cyfleusterau a bod cefnogaeth leol i'r cais a bod maint a natur y gefnogaeth yn cael ei phenderfynu gan y Cyngor Sir.

**c)** Pan fo'n angenrheidiol, bod yr ymgeiswyr (y gymdeithas/corff) â thystiolaeth o ddaliadaeth ar y tir neu'r adeilad y gofynnir am grant iddo a'r ddaliadaeth honno, fel arfer, am gyfnod sy'n o leiaf 21 mlynedd.

Yng nghyswllt adeiladau symudol, bydd daliadaeth o saith mlynedd yn cael ei ystyried yn ddigonol.
Yn achos caeau chwaraeon, bydd tystiolaeth o ddefnydd sefydlog dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy yn dderbyniol yn hytrach na thystiolaeth o ddaliadaeth.

**ch)** Bod yr ymgeiswyr yn gallu dangos y gallent gwrdd â'r costau cynnal am o leiaf dair blynedd ar ôl dyrannu'r cymhorthdal (gan ystyried unrhyw grantiau sydd ar gael).

**d)** Ni fydd cyfleusterau, os cawsant grant yn y ddwy flynedd a aeth heibio, yn cael eu hystyried oni phrofir iddo gael ei nodi yn y cais gwreiddiol y rhoes y Cyngor Sir ei gymeradwyaeth iddo fod y datblygiad yn un fesul cam dros gyfnod o amser.

**dd)** Nid yw cynlluniau sy'n fwy na £30,000 yn gymwys i'w hystyried ond, os yn briodol, gellir eu cyfeirio at Gynllun Grantiau i Gynlluniau Mawr y Loteri Cenedlaethol, os bydd y Cyngor Sir yn sefydlu cronfa o'r fath.

**e)** Ni roddir grant ar gyfer darpariaeth gyffelyb yn yr un gymuned oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn gofyn am ystyriaeth arbennig y Cyngor.

**f)** Bydd angen i'r ymgeiswyr ddangos bod y defnydd mwyaf posib yn cael ei wneud o'r cyfleusterau a ddarperir.

**ff)** Rhaid i'r ymgeiswyr gwrdd ag unrhyw wahaniaeth rhwng y grant a chostau'r cynllun wrth fodd y Cyngor Sir ac o fewn 12 mis i dderbyn y cynnig amodol o grant.

**g)** Bydd gan y Cyngor hawl i dynnu'r cynnig yn ôl os meddylir nad yw'r ymgeiswyr wedi gwneud ymdrech i symud ymlaen â'r cynllun.

**ng)** Rhaid codi yswiriant i'r cyfleusterau fel bod modd darparu rhai eraill yn eu lle pe caent eu difrodi neu eu difetha'n llwyr gan dân neu gan unrhyw achos arall.

**h)** Ni chaniateir defnyddio'r grantiau na'r cyfleusterau sy'n derbyn grant at bwrpas sy'n wahanol i'r pwrpas hwnnw y rhoddwyd iddo grant oni fydd y Cyngor Sir wedi rhoddi ei ganiatâd i'r pwrpas gwahanol a, phe gwneid defnydd newydd o'r cyfleusterau neu pe ceid gwared â nhw, yna mae'n bosibl bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**i)** Wedi i'r cynllun dderbyn caniatâd, ni fydd modd ei newid, ac eithrio yn achos newidiadau bychain, heb yn gyntaf dderbyn caniatâd y Cyngor Sir, a, phe cai'r cynllun ei newid heb awdurdod, efallai bydd y Cyngor Sir yn gofyn am ran neu'r cyfan o'r grant yn ôl.

**l)** Ni fydd modd symud ymlaen gyda datblygiadau ar y cyd na gyda chynlluniau ar y cyd onid yw'r holl awdurdodau eraill sy'n rhan o'r datblygiad/cynllun yn cynnig sicrwydd pendant o'u cefnogaeth. Mae hyn yn berthnasol yn enwedig lle mae ceisiadau Loteri, Ewrop a'r Cynulliad yn cael eu hystyried neu'n ffurfio rhan o'r cais.

**ll)** Os rhoddir grant tuag at lecyn chwarae, bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned perthnasol drefnu i gael archwiliad blynyddol o'r offer, gan berson cymwys, i sicrhau ei fod yn parhau i gwrdd â gofynion y Safonau. Os nad yw'n cyfarfod y Safonau, bydd gofyn i'r Cyngor Cymuned weithredu ar y gwelliannau a argymhellir.

Ni ystyrir cais arall am grantiau oddi wrth Cyngor Cymuned i ddatblygu rhagor ar lecyn chwarae hyd nes bydd y gwaith angenrheidiol wedi ei gwblhau.

Bydd gan y Cyngor Sir hawl i ofyn am dystiolaeth fod yr archwiliad blynyddol a'r gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud.

## 3. MUDIADAU CHWARAEON

**a)** Ystyrir rhoi cymorth ariannol tuag at y canlynol:-

**i)** Cymorth tuag at y costau teithio hynny a gaiff cynrychiolwyr wrth fynychu cystadlaethau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**ii)** Cymorth hefo costau hyfforddiant safon uchel i unigolion a doniau mewn chwaraeon pan na fo'r hyfforddiant ar gael yn lleol.

**iii)** Gwella a chynnal adeiladau a thiroedd a gofalu am offer.

## 4. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL I GYHOEDDI LLYFRAU

**a)** Rhaid rhoddi sylw pennaf i'r cwestiwn hwn - a fydd y cyhoeddiad yn berthnasol ac o fudd i Ynys Môn. Rhaid i'r llyfr gynnwys o leiaf un o'r ystyriaethau isod:-

- Bod yn berthnasol o safbwynt diwylliant neu hanes Ynys Môn;
- Cymorth i ddatblygu twristiaeth;
- Gwerth addysgol - yn briodol i fyfyrwyr ei ddefnyddio;
- Ei ddefnyddio yng ngweithgareddau datblygu economaidd y Cyngor;
- Cymorth i hyrwyddo datblygiad yr Iaith Gymraeg a pholisïau dwyieithrwydd.

**b)** Rhaid i'r pwnc fod yn un newydd ac, yn ogystal, rhaid sicrhau bod ganddo apêl eang. Os nad yw'n bwnc newydd, rhaid bod agwedd newydd iddo.

**c)** Ni roddir unrhyw gyfraniad i unigolion sydd wedi derbyn cymorth ariannol gan Gyngor Llyfrau Cymru. Dylid gwneud cais i'r Cyngor Llyfrau Cymru yn y lle cyntaf.

## 5. CATEGORÏAU NA CHÂNT EU HYSTYRIED

**a)** Ni ystyrir rhoddi cymorth ariannol i Gynghorau Cymuned oni wneir hynny o'r Gronfa Cyfleusterau Cymuned.

**b)** Ni ellir ystyried tai capel, ficerdai nac adeiladau cyffelyb.

**ADOLYGWYD EBRILL 2015**

This page is intentionally left blank